

## Ffermydd Cymru o'r Awyr gan Angharad Williams, CBHC

Mae awyrluniau yn gyfrwng defnyddiol iawn i ddangos effaith ffermio a dylanwad dyn ar y tirlun yn ogystal â rhoi modd inni weld patrymau yn y tirlun a chanfod olion ein cyndeidiau. Yn yr erthygl hon ceir detholiad bychan o awyrluniau i ddangos patrymau ac olion rhai cyfnodau o ffermio.

Tybir bod pobl wedi bod yn ffermio'r tir yma yng Nghymru ers tua 6,000 o flynyddoedd (o'r Cyfnod Neolithig). Gwyddom hyn am mai o'r cyfnod hwn y cawn y dystiolaeth bendant gyntaf o dai, a hynny oherwydd i bobl ddechrau ffermio a byw mwyfwy mewn un man. Cyn hynny byddai pobl wedi bod yn teithio o amgylch y wlad gan hela a chasglu eu bwyd.

Wrth adeiladu cartrefi parhaol, clirio'r tir ar gyfer ffermio a chodi waliau neu ffosydd terfyn i gaeau, mae pobl wedi bod yn newid y tirlun a'r llystyfiant. Rydym ni heddiw yn parhau i newid y tirlun a'r amgylchedd drwy adeiladu, ffermio a thrin y tir.

### Ditectif tirlun 1 – waliau cerrig



© Hawlfraint y Goron: CBHC Llun:DI2007\_1430 Maen y Bardd, Conwy.

Dyma awyrlun sy'n dangos systemau caeau cynhanesyddol ger Maen y Bardd, Conwy. Hen gromlech claddu'r meirw yw Maen y Bardd. Yn y llun gallwn weld olion wahanol gyfnodau. Fedrwch chi eu gweld? Talwch sylw....mae yna dasg i chi ei wneud ar ddiwedd y daflen. Fedrwch chi weld waliau cerrig a godwyd yn ystod y ddwy ganrif diwethaf? Dyma ffiniau'r caeau sy'n parhau i gael eu defnyddio hyd heddiw. Dylai'r hain fod yn amlwg ar y tir.

Fedwch chi weld olion yr hen gaeau ger y ffordd syth sy'n rhedeg ar draws pen uchaf / cornel dde y llun?. Tybir bod y ffordd hon yn tarddu o gyfnod y Rhufeiniaid a'i bod yn torri drwy'r hen gaeau. Beth oedd yna yn gyntaf felly dditectif?

Mae olion ffiniau hen gaeau, olion rhychau troi a gwrthgloddiau anheddiadau cynnar i'w gweld o hyd er gwaethaf y faith bod caeau fel y rhain wedi cael eu defnyddio ers sawl canrif.

### **Ditectif tirlun 2 – Olion cnydau**

Gellir dod o hyd i nifer o hen ffermydd a safleoedd hanesyddol drwy astudio olion cnydau mewn awyrluniau. Er enghraifft, mae ôl cnydau'n gallu dangos amlinelliadau clir o ffosydd fferm amddiffynedig o'r Oes Haearn, fel y gwelir yn y llun isod o Cawrence, Ceredigion.



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Llun:2005\_0139. NPRN 308918 Cawrence, Ceredigion

Diben codi'r lloc allanol, maen siwr, oedd creu lle i gadw stoc megis defaid a gwartheg ynddo. Mae'n debyg mai tai crwn oedd yn y lloc mewnol a gellid mynd at y lloc hwn ar hyd y llwybr byr oedd â chlwyd ar ei draws (ar y chwith).



Llun: CD2003\_634\_011 / NPRN: 300063) Ardal Llynnoedd Teifi, Ceredigion.

Ledled Cymru, mae modd gweld olion yr aneddiadau gwledig sydd wedi goroesi o'r Oesoedd Canol (OC1100-1500). Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn cartrefi gwasgaredig gan aredig a phori'r tir o'u cwmpas.

Mae'r aneddiadau hyn naill ai wedi'u haddasu ac wedi para hyd heddiw, neu, wedi eu gadael ers canrifoedd. Os edrychwch yn graff, gallwch weld eu gweddillion ar y tir. Gelwir yr olaf yn 'aneddiadau canoloesol anghyfannedd', (abandoned settlements). Efallai i bobl eu gadael yn ystod cyfnodau o galedi adeg dirywiad yn yr hinsawdd – a'r pla – yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y ty hir yw'r cartref canoloesol clasurol lle byddai teuluoedd ac anifeiliaid yn draddodiadol wedi byw o dan yr unto. Mae cytiau petryal eraill o gerrig wedi goroesi ledled uwchdiroedd Cymru ac efallai mai hafodydd neu luestau, sef preswylfeydd dros dro neu dymhorol, oedd llawer ohonynt.

Yn y llun uchod gwelir aneddiadau canoloesol anghyfannedd yn ardal Llynnoedd Teifi, Ceredigion. Yn y tir pori sydd wedi ei wella, sef y tir ar waelod y llun, mae modd gweld olion gwrthgloddiau oedd yn rhan o gyfres o aneddiadau canoloesol anghyfannedd.

### **Gwaith Dosbarth**

Dyma lun du a gwyn o'r lluniau lliw yn yr erthygl. Ar gopi/print ohonynt, fedrwch chi labelu'r canlynol?

Hen ffordd Rufeinig

Coedtir

Hen derfyn/hen wal

Olion ffordd



Llun: CD2003\_634\_011 / NPRN: 300063) Ardal Llynnoedd Teifi, Ceredigion.

### **Beth am wneud eich olion eich tirlun eich hunain?**

Mae'r darlun isod yn dangos sut mae ôl cnydau'n ymffurfio: fferm o'r Oes Haearn yn troi'n wrthglawdd isel ac yna'n dir amaethyddol heddiw.




Mae'r dilyniant hwn o luniau'n dangos sut y gall rhai o elfennau fferm gynhanesyddol, ac yn enwedig ffos y lloc, y gwrthglawdd amddiffynnol a thyllau'r pyst, oroesi dan y pridd ac effeithio ar y ffordd y bydd cnwd â'r neu laswelltir yn tyfu yn ystod gwanwyn a haf sych.



### Creu ôl cnwd yn y dosbarth

Mae'r weithgaredd isod yn dangos y gwahaniaeth mewn tyfiant planhigion mewn pridd o ddyfnder gwahanol.

Byddwch angen:



- Blwch neu hambwrdd sydd oleiaf 5cm o ddyfnder
- Pridd Cerrig mân
- Had berdwr neu fwstar
- Dwr

©Hawlfraint y Goron: CBHC  
Llun:DI2006\_1443

1. Llenwch yr hambwrdd gyda'r cerrig, tua 4cm o ddyfnder.
2. Ewch ati i greu nodweddion tebyg i'r fferm o'r Oes Haearn yn y cerrig, e.e. cloddio ffos tua 3cm o ddyfnder, gwrthglawdd tua 1.5cm o uchder. Gallwch hefyd greu tyllau pyst.
3. Yn ofalus gorchuddiwch y cerrig gyda'r pridd fel bod lefel y 'tir' yn eitha gwastad.
4. Dyfrhewch y pridd nes ei fod yn wlyb.
5. Gwasgarwch yr hadau'n eitha trwchus ar hyd y pridd.
6. Rhowch YCHYDIG o ddwr i'r hadau nes y byddant wedi egino a dechrau tyfu.
7. Cadwch y pridd yn eitha sych a sylwch ar dyfiant y planhigion dros yr wythnosau nesaf.

Oes gwahaniaeth yn uchder neu liw y planhigion mewn rhannau gwahanol o'ch hambwrdd? Ydych chi wedi llwyddo i greu ôl cnwd eich hunan?

